

Nodiadau	Gweithredu
<p>YN BRESENNOL: Carol Bell (yn cadeirio), Laurie Pavelin (Trysorydd); Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Hywel John; Kay Andrews; Michael Prior; Rachel Hughes; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Orielau a Phrofiad Ymwelwyr; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu, Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>HEFYD YN BRESENNOL: Peter Owen, Cyfarwyddwr Dros Dro MALD.</p>	
<p>DATGAN BUDDIANNAU – Y Farwnes Kay Andrews mewn perthynas ag eitemau yn ymwneud â Chronfa Treftadaeth y Loteri. Carol Bell mewn perthynas ag eitemau yn ymwneud â Banc Datblygu Cymru</p>	
<p>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>1.1 Croesawyd yr aelodau a Peter Owen i'r cyfarfod. Croesawyd Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa Lechi Cymru, i'r cyfarfod hefyd. Estynnwyd diolch iddo a'i dîm am roi croeso i'r Ymddiriedolwyr y diwrnod blaenorol. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jessica Seaton, Robert Pickard, Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, Steve Burrow, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a Lesley-Anne Kerr.</p>	
<p>Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, cafodd y Bwrdd friff a thrafodaeth ynghylch recriwtio'r Llywydd ac Ymddiriedolwyr, penodi Cyfarwyddwr Masnachol, Adolygiad Thurley, Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed, Cynllunio Ariannol, gwaith yr Adran Ddatblygu, Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol, Sganio'r Gorwel, Benthyciadau Rhyngwladol a Thÿ Turner.</p> <p><i>Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</i></p>	
<p>2 COFNODION</p> <p>5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Y dylid cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018.</p>	
<p>3 MATERION YN CODI o'r cofnodion</p> <p>3.1 Eitem 12.2 Penodiad Carys Howell i Fwrdd NWMS Ltd Bod Bwrdd NWMS wedi cymeradwyo penodiad Carys.</p> <p>3.2 Eitem 10.5 Polisi Ymchwil Moesegol Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi adrodd bod y datganiad ar Foeseg Ymchwil wedi'i adolygu'n fewnol a</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>bod Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yn ystyried safbwynt yr Amgueddfa mewn perthynas â'n gwaith gyda gwirfoddolwyr. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil y sefyllfa gyda'r Strategaeth Ymchwil, y berthynas â phrifysgolion a gwaith cydweithredu'r Amgueddfa yn Ewrop. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod Steve Burrow wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr newydd Casgliadau ac Ymchwil. Estynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil ddiolch i gyn Gydgyfarwyddwr Dros Dro Casgliadau ac Ymchwil am ei waith, gan nodi y bydd yn parhau i gefnogi gwaith y Pwyllgor.</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, a bod Hywel John wedi'i gadarnhau yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil.</p>	<p>Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil</p>
<p>4 POLISI A CHYNLLUNIO STRATEGAETH</p> <p>4.1 Adolygiad Thurley</p> <p>4.1.1 <u>Adroddwyd:</u> Bod y Bwrdd wedi nodi'r diweddariadau mewn perthynas â'r meysydd sy'n cael eu datblygu. Roedd y grŵp sgiliau'n gwneud cynnydd da, gyda ffyrdd cadarnhaol yn cael eu harchwilio yn ymwneud â rôl prentisiaethau. Roedd y gwaith o benodi Cyfarwyddwr Masnachol yn mynd rhagddo ac roedd Cysylltiadau Staff yn cael eu datblygu drwy gydweithio â'r undebau. Byddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cyfarfod gyda'r Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer Amgueddfa Lechi Cymru.</p> <p>4.1.2 Croesawodd y Bwrdd y diweddariadau cadarnhaol ac estyn diolch i'r staff am eu gwaith a'u hymroddiad. Roedd y gwaith i ddatblygu sgiliau a phrentisiaethau yn stori newyddion dda i Lywodraeth Cymru, am ei fod yn cyflawni newid trawsffurfiol mewn ffordd sy'n ganolog i'r blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd sy'n gyffredin rhyngom. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr beth yw'r gofynion o ran adrodd i Lywodraeth Cymru. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y gwneir hyn drwy gyfrwng cyfarfodydd yr adolygiad Chwarterol.</p> <p>4.1.3 Nododd yr aelodau bod y Fonesig Jenny Abramsky, cyn Gadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri ac Ymddiriedolwr y Canal and River Trust wrth ei bodd gyda'i hymweliad diweddar â Sain Ffagan.</p> <p>4.1.4 Nododd yr aelodau y potensial i Gymru o ran cyfleoedd yn sgil y cynigion i ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru. Rhoddodd hyn gyfleoedd i atgyfnerthu'r cysylltiadau â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr, ac i weithio gyda'r Bwrdd Uchelgais. Byddai gan Fanc Datblygu Cymru ddiddordeb mewn dysgu am y cynigion hyn.</p> <p>4.1.5 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, ac y dylid gwahodd Simon Thurley i agoriad Sain Ffagan ar 18 Hydref 2018.</p> <p>4.2 Partneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>4.2.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda ac yn datblygu pedwar maes: Sgiliau, Grŵp Profiad Ymwelwyr, y Grŵp Datblygiad Masnachol, a Grŵp Swyddfa Gefn. Mae hyn yn rhoi fframwaith rhagorol i'r holl bartneriaid gyflawni canlyniadau cadarnhaol i Gymru.</p> <p>4.2.2 Nododd aelodau fod yr Amgueddfa'n gweithio gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru, Cymdeithas yr Amgueddfeydd a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol i adolygu'r holl strategaethau yn ymwneud â datblygu amgueddfeydd yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dal yn ôl y gwaith o ddatblygu pob strategaeth yn y dyfodol. Roedd y sector nawr yn cydweithio mewn ffordd gadarnhaol i sefydlu strategaeth benodol i'r sector, wedi'i harwain gan y sector, a gaiff ei llunio yn yr haf er mwyn ymgynghori arni, cyn ei chyflwyno i'r Gweinidog yn yr hydref. Bydd yn ddogfen a gaiff ei rhannu'n eang. Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y gefnogaeth ar gyfer y sector amgueddfeydd ehangach yng Nghymru wrth galon trafodaethau gyda rhanddeiliaid, a Llywodraeth Cymru yn arbennig. Croesawodd Cyfarwyddwr Dros Dro MALD yr ymagwedd hon.</p>	
<p>4.2.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylid cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar adeg briodol yn y dyfodol.</p>	
<p>4.3 Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed ac Amgueddfa Celf Gyfoes Genedlaethol</p>	<p>Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus</p>
<p>4.3.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod Cyfarwyddwr Dros Dro MALD wedi adrodd bod safbwynt yr Amgueddfa, mewn perthynas ag Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol, o fewn yr adroddiad drafft yn cael ei gryfhau. Pwysleisiodd y byddai unrhyw Oriel genedlaethol newydd ar gyfer celf gyfoes yn rhan o Amgueddfa Cymru. Mae'r adroddiad wedi gwneud argraff fawr ar swyddogion yn Llywodraeth Cymru ac maent yn falch gyda chyfeiriad cyffredinol yr adroddiad. Dylai Amgueddfa Cymru fod yn y canol, a dylai fod casgliad gwasgaredig yn ogystal ag ymyriadau ar draws Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru'n sylweddoli y byddai angen cyflwyno'r cynigion mewn camau dros sawl blwyddyn, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Caiff adroddiad ei lunio ym mis Medi, bydd trafodaeth yn y Senedd i ddilyn, a thrydydd ymgynghoriad wedi hynny. Gallai hyn arwain at astudiaeth achos arall. Y nod yn sicr fyddai creu rhywbeth unigryw ac amlwg i Gymru. Dangosodd Brexit yr angen i greu rhywbeth o arwyddocâd rhyngwladol i Gymru.</p>	
<p>4.3.2 Mewn perthynas â'r Amgueddfa Chwaraeon, byddai Llywodraeth Cymru'n cael yr adroddiad yn yr hydref. Eto, roedd model gwasgaredig yn cael ei gynnig, ochr yn ochr â gwelliannau i Amgueddfa Wrecsam. Roedd posibilïadau i fynd â'r casgliad ar daith, a chyfleoedd i wella hanes cymdeithasol chwaraeon yn Sain Ffagan.</p>	
<p>4.3.3 Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i Gyfarwyddwr Dros Dro MALD am ei ddiweddariad, a nododd gynlluniau presennol yr Amgueddfa ar gyfer datblygiadau cyfalaf yn Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Lleng</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>Rufeinig Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y dylai fod strategaeth genedlaethol ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn diwylliant yng Nghymru, fel sydd eisoes yn lwerddon.</p> <p>4.3.4 Nododd Ymddiriedolwyr yr angen i gydbwysu'r canlyniadau gwleidyddol mewn perthynas â datblygiadau cyfalaf yn erbyn model gwasgaredig a bod yr ail yn gweddu yn arbennig o dda i Gymru. Nid datblygiadau cyfalaf oedd y ffordd orau ymlaen bob tro.</p> <p>4.3.5 Nododd y Llywydd Dros Dro yr angen i sicrhau y caiff costau refeniw eu hystyried, yn ogystal â chyfalaf. Byddai ymagwedd 'o'r gwaelod i fyny' sy'n annog cefnogaeth leol yn cael ei chroesawu, a byddai model gwasgaredig yn ganolog i unrhyw gynlluniau.</p> <p>4.3.6 Nododd Ymddiriedolwyr yr angen i gefnogi Dafydd Elis-Thomas i ddod i benderfyniad drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth ganddo mewn perthynas â'n cydflaenoriaethau ac amserlenni.</p> <p>4.3.7 Nododd Ymddiriedolwyr hefyd yr angen i fynd i'r afael ag adnoddau staffio ar gyfer ein mentrau ein hunain ac ar gyfer y mentrau eraill hyn.</p> <p>4.3.8 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylai'r Bwrdd ystyried y cynigion yn dilyn y drafodaeth yn y Senedd.</p> <p>4.4 IIP40</p> <p>4.4.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu wedi diweddarau'r Bwrdd ar gynnydd gyda staff. Roedd y sioeau teithiol wedi'u cwblhau, ac roedd adolygiad staff wedi'i lansio. Caiff gweithgorau eu sefydlu yn cynnwys amrywiaeth o staff er mwyn symud y gwaith yn ei flaen i sicrhau bod pawb â pherchenogaeth drosto.</p> <p>4.4.2 Adroddodd Glenda Jones, cynrychiolydd yr Ymddiriedolwyr a etholwyd i gyfarfod â'r tair undeb, ar y cyfarfodydd llwyddiannus diweddar a oedd wedi'u cynnal gyda'i gilydd. Cydnabu'r Bwrdd y gwaith llwyddiannus a oedd wedi'u wneud hyd yma, ac roedd yn edrych ymlaen at glywed sut bydd staff yn cael eu cynnwys yn y dyfodol.</p> <p>4.5 Strategaeth Digwyddiadau</p> <p>4.5.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Rheolwr Digwyddiadau a'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>4.5.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y strategaeth yn cyflwyno sut byddai'r Amgueddfa'n datblygu ei henw da fel un o'r prif ddarparwyr digwyddiadau gyda brand cryf a phenderfyniad clir. Y nod oedd datblygu portffolio cytbwys a chynaliadwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf.</p> <p>4.5.3 Llongyfarchodd yr Ymddiriedolwyr y Rheolwr Digwyddiadau am safon y strategaeth a'r dull dadansoddol at gynllunio digwyddiadau oedd wedi'i</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>ddilyn.</p> <p>4.5.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y strategaeth. Sefyllfa'r Amgueddfa fel elusen gofrestredig i'w chryfhau yn y ddogfen derfynol.</p>	
<p>5 EITEM 6.3 ADRODDIAD AR Y SEFYLLFA ARIANNOL</p> <p>5.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>5.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi adrodd sefyllfa ariannol yr Amgueddfa, fel y cofnodwyd. Roedd Llywodraeth Cymru yn cael ei hatgoffa o sefyllfa'r Amgueddfa ym mhob cyfarfod adolygiad chwarterol.</p> <p>5.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylid gwneud nodyn o'r diweddariad.</p>	
<p>6 EITEM 6.5 RHWYDWEITHIAU EWROPEAIDD Y TU HWNT I'R UE</p> <p>6.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi adrodd ar ei ymweliad diwedd ar â Brwsel, a'r cysylltiadau a wnaed yn dilyn cyflwyniadau gan yr Ymddiriedolwr Hywel Ceri Jones. Byddai'r Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil yn teithio i Fflandrys i gymryd rhan mewn rhaglen i gefnogi staff amgueddfa. Roedd yr Amgueddfa hefyd yn ymwneud â Sefydliad Diwylliant Ewrop, ac â rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru a oedd â phryderon tebyg ynghylch ein cysylltiadau diwylliannol o fewn Ewrop. Byddai'r Amgueddfa'n arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth gydag Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon ar 29 Mehefin 2018. Roedd hyn yn enghraifft arall o'r rhwydwaith sy'n datblygu o gytundebau sy'n cael eu sefydlu gyda sefydliadau allweddol ar draws Prydain. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn falch o gael nodi y byddai'r Amgueddfa'n ystyried cyflwyno cais i wobrau 2020 neu 2021 ar gyfer Amgueddfa Ewropeidd y Flwyddyn.</p> <p>6.2 Croesawodd Ymddiriedolwyr ymroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i amser wrth deithio i Frwsel. Nodont y gwahanol ganfyddiadau am Gymru sydd i'w cael yno, a'r posibilïadau i gydweithredu. Cwestiynodd Ymddiriedolwyr a yw llywodraethau Cymru a'r DU yn barod am Brexit, gan nodi bod angen cynnal partneriaethau a oedd wedi'u datblygu dros yr oddeutu pedwardeg mlynedd diwethaf. Cyflwynodd yr Ymddiriedolwr Hywel Ceri Jones dystiolaeth ar oblygiadau cyllid Brexit i un o Bwyllgorau Llywodraeth Cymru, ac roedd wedi rhannu hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>6.3 Gofynnodd y Llywydd Dros Dro am sefyllfa gwladolion yr UE sy'n cael eu cyflogi gan yr Amgueddfa. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ein bod yn cyflogi tua deuddeg aelod o staff o'r fath, a bod eu statws yn destun pryder.</p> <p>6.4 Nododd Cyfarwyddwr Dros Dro MALD fod Llywodraeth Cymru'n</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>ymwybodol o'r materion. Roedd cais £50m i gefnogi ymgysylltu rhyngwladol drwy ddiwylliant yn cael ei archwilio, er mwyn gwella'r cysylltiadau presennol a datblygu rhai newydd. Byddai Dafydd Elis-Thomas yn galw ar y sector diwylliannol i wneud cyfraniad cadarnhaol at yr her. Nododd y Bwrdd y drafodaeth yng Nghanolfan Gelfyddydol y Chapter y diwrnod nesaf, a fyddai'n archwilio llawer o'r materion hyn.</p> <p>6.5 Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol rôl bosibl Cyngor Ewrop. Roedd yr Amgueddfa wrthi'n ceisio sicrhau hawliau diwylliannol, ac roedd democratiaeth ddiwylliannol wrth galon y gwaith sydd ganddi ar y gweill ar lefel Ewrop, ac mae partneriaid potensial o amgylch y meysydd hyn.</p> <p>6.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil yn datblygu map sy'n cyflwyno'r gwahanol bartneriaethau, rhwydweithiau a bylchau sy'n bodoli, ac y dylid adrodd ar hyn i'r Bwrdd.</p> <p><i>Gadawodd David Anderson y cyfarfod yr adeg hon.</i></p>	<p>Ceidwad y Gwyddorau Naturiol</p>
<p>7 EITEM 6.4 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL - DIWEDDARIAD</p> <p>7.1 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod yr Amgueddfa wedi symleiddio'r Weledigaeth ac wedi mapio'n hymrwymiaidau i'r nodau o fewn y Ddeddf. Roedd yr Amgueddfa'n rhan o fforwm o ddeuddeg corff arall sydd wedi'i noddi a oedd yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried dulliau o gynllunio gyda'i gilydd ar gyfer strategaethau deng mlynedd. Noddodd aelodau fod yr Amgueddfa'n datblygu rhaglen hyfforddiant gydag Academi Cymru i Ymddiriedolwyr a staff, mewn perthynas â'r Ddeddf.</p>	
<p>8 EITEM 6.1 ADRODDIAD PERFFORMIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU CHWARTER 4</p> <p>8.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>8.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus wedi adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd yn chwarter olaf y flwyddyn, a'r flwyddyn yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys bod yr Amgueddfa wedi cyflawni'r ffigurau uchaf erioed o ran nifer ymwelwyr, sef ychydig o dan 1.8m.</p> <p>8.3 Roedd y Llywydd Dros Dro yn falch o gael dysgu bod y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2018/19 bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>8.4 Nododd y Trysorydd y materion nas cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod y berthynas rhwng y rhain a'r capasiti o fewn yr adran Adnoddau Dynol i'w cyflawni. Nododd mor bwysig yw rhoi cefnogaeth lawn i staff yr Amgueddfa a'u datblygiad. Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod Rheolwr AD wedi'i benodi i gefnogi Pennaeth Adnoddau Dynol, a bod adnoddau ychwanegol yn cael eu rhyddhau i'r adran. Bydd</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>mentrau lechyd a Lles yn amlwg drwy gydol IIP40.</p> <p>8.5 Nododd Ymddiriedolwyr y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol o'r baich a roddwyd ar staff yn ystod yr anghydfod diwydiannol. Gallai'r Amgueddfa ystyried drafftio papur yn cyflwyno sut gellid atgyfnerthu'r strategaethau AD.</p> <p>8.6 Mynegodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil ei bryder bod y Strategaeth Ymchwil wedi'i dal yn ôl, ond roedd yn falch o gael gweld ei bod bellach yn symud yn ei blaen. Cynigiodd y dylai'r Amgueddfa ystyried cyrraedd man lle nad strategaeth ar wahân oedd hon, ond yn hytrach un sy'n cael ei chysylltu mewn ffordd ryngddisgyblaethol, gan groesgyfeirio holl feysydd gwaith eraill yr Amgueddfa.</p> <p>8.7 Nododd y Llywydd Dros Dro yr angen i grynhoi mwy ac am fwy o eglurder yn y papurau.</p> <p>8.8 Nododd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus y byddai tîm y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys rôl gynllunio yn fuan. Roedd penodiad Cyfathrebu Mewnol wedi'i wneud a byddai'r unigolyn yn cychwyn ym mis Awst. Byddai ei rôl yn cynnwys helpu gyda IIP40, ac adolygu polisïau a strategaethau a ble maent wedi'u lleoli.</p> <p>8.9 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y cynnydd wedi'i nodi. Y dylai adroddiadau yn y dyfodol restru'r disgwyliadau ar y dechrau. Y dylid adlewyrchu'r meysydd tanberfformio yn y Gofrestr Risg.</p>	<p>Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus</p>
<p>9 EITEM 6.2 DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU ARFAETHEDIG</p> <p>9.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus wedi tynnu sylw at y dyddiadau y dylai'r Ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol ohonynt, ac y gallai rhai dyddiadau hwyrach newid.</p> <p>9.2 Adroddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr ar lansiad llwyddiannus yr arddangosfa Kizuna yn Llundain ac yng Nghaerdydd, yn ogystal â'r digwyddiad Qatar llwyddiannus a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r staff am eu gwaith caled yn y ddau weithgaredd ac am yr hyn a gyflawnwyd gyda'r gyllideb brin oedd ar gael.</p> <p>9.3 Nododd Ymddiriedolwyr nad oedd catalogau'r arddangosfeydd Kizuna a From Bacon to Doig ar gael ar gyfer y lansiadau. Roedd y rhesymau am hyn y tu hwnt i reolaeth yr Amgueddfa, ond maent bellach ar gael ac felly mae cyfle i ymgysylltu eto â'r rhanddeiliaid perthnasol.</p> <p>9.4 Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu ddiweddiariad i'r Bwrdd ar gynlluniau ar gyfer yr Eisteddfod. Mae fframwaith <i>Blwyddyn y Môr</i> yn cael ei ddefnyddio fel rhan o arddangosfa gymunedol sy'n seiliedig ar borthladd Caerdydd, a fydd yn teithio i ranbarthau eraill. Bydd rhaglen o ddigwyddiadau a thafuniadau o sut roedd y porthladd yn edrych yn y</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>gorffennol. Roedd Coron a Chadair yr Eisteddfod wedi cael eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ac roedd yr Amgueddfa a Phrifysgol Caerdydd wedi'u noddi ar y cyd.</p> <p>9.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y diweddariad wedi'i nodi.</p>	
<p>10 EITEM 5 CASGLIADAU AC YMCHWIL Adroddiad chwe mis</p> <p>10.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>10.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad wedi'i nodi yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.</p> <p>10.3 Holodd Rachel Hughes a oedd modd gwerthuso ble roedd y prif fannau diddordeb gyda'r casgliadau o ran digwyddiadau, a ble roedd y galw.</p> <p>10.4 Nododd Catherine Duigan fod y ddogfen yn werthfawr, a gofynnodd a oedd wedi'i rhannu gyda phrifysgolion a rhanddeiliaid eraill.</p> <p>10.5 Awgrymodd Ymddiriedolwyr y byddai'n werthfawr cynnal trafodaeth bord gron yn y gwanwyn gyda'r holl brifysgolion yng Nghymru yn dod at ei gilydd i ddysgu am weithgareddau'r Amgueddfa. Nodwyd nad oedd y papur eto wedi'i rannu gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil.</p> <p>10.6 Adroddodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus fod yr Amgueddfa yn hyrwyddo, marchnata a hysbysebu ei chasgliadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, drwy gyfrwng digwyddiadau, deunyddiau cyfathrebu, adroddiadau blynyddol, adroddiad o effaith a thrwy ffeithluniau.</p> <p>10.7 Nododd y Cyfarwyddwr Arddangosfeydd a Datblygu Oriolau fod yr adroddiad yn cynnwys gwaith rhyngddisgyblaethol staff.</p> <p>10.8 Nododd Ymddiriedolwyr bwysigrwydd yr hyn oedd wedi'i gaffael, yn enwedig gosodwaith Cerith Wyn Evans.</p> <p>10.9 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
<p>11 EITEM 7.1 RHAGLEN GWAITH CYNNAL A CHADW HANFODOL STRATEGOL</p> <p>11.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr wedi adrodd bod y Bwrdd wedi cael diweddariad yn ei gyfarfod y diwrnod blaenorol mewn perthynas â chostau a blaenoriaethau. Byddai cyfarfod sydd ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'r diweddariadau a gafwyd ers i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad gyfarfod ym mis Mai, a byddai'r Pwyllgor hwnnw yn cael diweddariad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.</p> <p>11.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>12 EITEM 7.2 PROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN</p> <p>12.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>12.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod Ros Kerlake, Prif Weithredwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a Richard Bellamy, Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru wedi ymweld â Sain Ffagan. Roedd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd hefyd wedi ymweld yn ddiweddar. Roedd yr Amgueddfa wedi'i phenodi gan Is-adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg yn Llywodraeth Cymru i adolygu'r argymhellion mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, ar draws y celfyddydau, y dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae ffeithlun o'r gweithgareddau dros y pum mlynedd diweddar yn yr arfaeth. Roedd y Bwrdd yn falch o gael nodi'r diweddariad mewn perthynas â'r ymgyrch codi arian. Roedd amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynllunio ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys Gala a digwyddiad dros nos. Nododd y Bwrdd fod Andy Haldane, Prif Economydd Banc Lloegr yn archwilio'r syniadau o amgylch gwerth diwylliant. Nododd y Llywydd Dros Dro fod hyn yn rhywbeth y dylai'r Amgueddfa ei ystyried, a bod Andy Haldane yn 'thought leader'.</p> <p>12.3 Holodd y Trysorydd a fyddai adolygiad ôl-broject ar ôl 18 Hydref 2018. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod hyn yn rhan o'r cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac y byddai amrywiaeth o staff yn cymryd rhan.</p> <p>12.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd y diweddariad hwnnw.</p>	
<p>13 EITEM 8.1 HOLIADUR EFFEITHIOLRWYDD BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR</p> <p>13.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>13.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd Dros Dro wedi nodi mai'r arfer orau oedd penodi gwerthuswr allanol unwaith bob tair blynedd. Y pwyntiau allweddol roedd hi am eu gweld yn cael sylw oedd y dylai'r Ymddiriedolwyr gael mwy o amser ar gyfer trafodaethau strategol; y dylid symleiddio'r wybodaeth sy'n cael ei hadrodd am berfformiad a chyllid ac y gellid gweithredu hyn ar unwaith; bod angen ailstrwythuro'r papurau a'r agenda yn sylweddol; y dylai'r Swyddogion bennu'r cyd-destun ar gyfer pam fod yr agenda fel y mae yn ystod y sesiwn drafod y noson flaenorol; y dylid adolygu'r papurau sy'n cael eu hailadrodd mewn sesiynau preifat a chyhoeddus; y dylid rhestru'n rhanddeiliaid ar ddechrau'n hadroddiad blynyddol; y dylid symud ymlaen gyda gwaith i adolygu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol Safonau ac y dylid archwilio ffyrdd o dynnu sylw Ymddiriedolwyr at wybodaeth; y dylai'r Llywydd newydd fwrw golwg dros drefn y Bwrdd a'i Bwyllgorau; ac y dylai fod mwy o amrywiaeth ymysg aelodau'r Bwrdd. Nodwyd bod yr Ymddiriedolwyr wedi cynnig eu cefnogaeth i'r Uwch Dîm Rheoli, ac y dylid bwrw ymlaen gyda hyn gyda'r aelodau unigol, gan</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>ddefnyddio'u harbenigedd yn ôl yr angen.</p> <p>13.3 Cwestiynodd Ymddiriedolwyr pam fod eitemau yn cael eu hailadrodd mewn sesiynau caeedig a sesiynau agored. Awgrymwyd y dylai aelodau eraill o staff, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Datblygu a'r 'Cyfarwyddwr Ymchwil' fynychu ar gyfer eu heitemau hwy, ac y dylid nodi papurau fel 'sensitif' yn hytrach na 'chyfrinachol'.</p> <p>13.4 Nododd Ymddiriedolwyr hefyd y gellid tynnu'r papur Casgliadau ac Ymchwil o'r papurau a'i anfon yn electronig er gwybodaeth.</p> <p>13.5 Nododd y Trysorydd yr angen i adolygu strwythurau'r Is-bwyllgorau.</p> <p>13.6 Ystyriodd y Bwrdd werthuswyr allanol posibl a fyddai'n gallu cynnig meincnodi perthnasol mewn perthynas â llywodraethu effeithiol mewn sefydliadau eraill.</p> <p>13.7 Nododd y Llywydd Dros Dro bod cyfle i'r Bwrdd ymgysylltu â Chenhedlaeth y Mileniwm yn y tymor byr.</p> <p>13.8 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylid cymeradwyo'r adroddiad. Y dylai'r Amgueddfa ystyried yr argymhellion ac ailadrodd yr adolygiad y flwyddyn nesaf gan ddefnyddio gwerthuswr allanol, a meincnodi'r Amgueddfa â sefydliadau perthnasol eraill.</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>
<p>14 EITEM 8.2 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO</p> <p><i>Gadawodd Hywel John yr ystafell yr adeg hon.</i></p> <p>14.1 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Llywydd Dros Dro wedi adrodd bod angen Cadeirydd newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn dilyn ymddeoliad Eurfyl ap Gwilym o'r swydd. Roedd Hywel John wedi mynychu cyfarfod mis Mai i arsylwi ac roedd nawr yn cael ei gynnig fel Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor. Roedd y Llywydd Dros Dro wedi ysgrifennu at Eurfyl ap Gwilym i ddiolch iddo am ei gyfraniad at waith yr Amgueddfa.</p> <p>14.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac y dylid penodi Hywel John yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o adnewyddu hynny unwaith. Y dylid diwygio dogfennaeth yr Amgueddfa i alluogi penodi Ymddiriedolwr neu Swyddog yr Amgueddfa yn Gadeirydd, heb y gofyniad bod hynny dan amgylchiadau eithriadol yn unig.</p> <p><i>Ailymunodd Hywel John â'r cyfarfod a rhoddwyd gwybod iddo am y penderfyniad.</i></p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>
<p>15 EITEM 8.3 RHEOLIADAU CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA</p> <p>15.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, a'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>15.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod cynnydd da wedi'i wneud a bod hysbysiadau preifatrwydd wedi'u hanfon allan. Roedd yr Amgueddfa yn gweithio tuag at gydymffurfio o ran Diogelu Data.</p>	
<p>16 EITEM 8.4 ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO</p> <p>16.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>16.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Trysorydd wedi adrodd ei bod yn bwysig bod y Bwrdd yn cael yr adroddiad sicrwydd blynyddol hwn. Cydnabu'r Bwrdd farn yr archwilwyr mewnol ac allanol o ran bod yr Amgueddfa yn cael sicrwydd cadarnhaol am ei gwaith.</p> <p>16.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, ac estynnwyd diolch i'r Cadeirydd am ei holl waith gyda'r Pwyllgor ar hyd y blynyddoedd.</p>	
<p>17 EITEM 8.5 ADRODDIAD CADEIRYDD CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CAERLLION</p> <p>17.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan Carys Howell a'r Cyfarwyddwr Arddangosfeydd a Datblygu Oriolau.</p> <p>17.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod angen sefydlu pwrpas a fformat newydd ar gyfer y cyfarfodydd ar gyfer y dyfodol. Teimlwyd y gellid rhoi cod lliw i'r projectau thematig yr adroddwyd arnynt ar draws gwahanol safleoedd.</p> <p>17.3 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil y byddai croeso i'r wybodaeth a oedd yn cael ei hadrodd yn y cyfarfod hwn yn y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil. Hefyd y ffordd mae'r gwaith hwn yn cynnwys prifysgolion a phartneriaid rhyngwladol, neu'r ffordd y gellid hyrwyddo'r gwaith hwn iddynt.</p> <p>17.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p>	
<p>18 EITEM 8.6 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD</p> <p>18.1 <u>Cafwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft yr:</p> <ul style="list-style-type: none"> 18.1.1 Ymddiriedolwyr Pensiynau 28 Chwefror 2018, 14 Mai 2018 18.1.2 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 16 Mai 2018 18.1.3 Pwyllgor Archwilio 17 Mai 2018 18.1.4 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan 06 Mawrth 2018 a 07 Mehefin 2018 18.1.5 NMGW Enterprises Ltd 25 Ionawr 2018 a 08 Mai 2018 18.1.6 Pwyllgor Ymgynghorol ar y Celfyddydau 26 Ebrill 2018 18.1.7 Pwyllgor Penodiadau a Thaliadau 27 Mawrth 2018 	

Nodiadau	Gweithredu
<p>18.2 <u>Adroddwyd</u>:</p> <p>18.2.1 Bwrdd Datblygu – Caiff cofnodion y cyfarfodydd hyn eu hadolygu gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad. Nododd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad gael drafft o'r adroddiad blynyddol cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad.</p> <p>18.2.2 Pwyllgor Penodiadau a Thaliadau – Bod y Llywydd Dros Dro wedi adrodd bod y Pwyllgor wedi ystyried cynrychiolaeth yr Ymddiriedolwyr ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil. Cytunwyd na chai unrhyw benodiadau eraill eu gwneud tan fod yr Ymddiriedolwyr newydd wedi cychwyn. Fel y nodwyd yn 3.2 uchod, fodd bynnag, mae Hywel John bellach wedi'i benodi. Byddai strwythur y Pwyllgor yn y dyfodol yn cael ei ystyried gan y Llywydd newydd, ond cydnabuwyd y byddai Pwyllgor a fyddai'n edrych ar fuddsoddiadau sylweddol mewn eiddo tirol yn ased gwerthfawr ar unwaith.</p> <p>18.2.3 Roedd y Llywydd Dros Dro hefyd wedi cynnal arfarniad perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac mae wedi rhannu'r canlyniadau gyda'r Trysorydd. Roedd y Bwrdd yn falch o nodi bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cynyddu ymgysylltiad rhanddeiliaid a bod ei dargedau perfformiad wedi'u cyflawni. Ymysg y llwyddiannau penodol roedd yr arddangosfa Kizuna. Adroddodd y Trysorydd na fyddai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael unrhyw daliad bonws, ac y byddai ei gyflog yn cael ei alinio gyda'r Cylch Cyflog. Ystyriwyd strwythur diwygiedig ar gyfer adolygu perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer y dyfodol.</p> <p>18.2.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y cofnodion a'r diweddariadau wedi'u nodi.</p>	
<p>19 EITEM 9 DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL – Adroddiad Blynyddol Statudol ar Safonau'r Gymraeg</p> <p>19.1 <u>Cafwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>19.2 <u>Adroddwyd</u>: Mai dyma'r adroddiad cyntaf i'w lunio. Nododd y Bwrdd natur y gŵyn a gafwyd gan y Comisiynydd.</p> <p>19.3 Nododd Ymddiriedolwyr bod newid i'w weld ar draws yr Amgueddfeydd, a'i bod yn bwysig bod Siaradwr Cymraeg wrth y ddesg flaen yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd drwy'r amser.</p>	
<p>20 UNRHYW FATER ARALL</p> <p>Nid oedd unrhyw fater arall i'w adrodd.</p>	
<p>DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<u>Penderfynwyd</u> : Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9:00am ar 04 Hydref 2018 yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.	